

Cer i Greu

yn yr
Awyr Agored

**Pecyn cymorth ar gyfer
trefnwyr digwyddiadau**

Mehefin 2021



Dathlwch greadigrwydd yn ystod Cer i Greu yn yr Awyr Agored 2021

Ymgyrch a gŵyl yw Cer i Greu sy'n cael ei rhedeg gan grŵp o sefydliadau diwylliannol i ddathlu a chefnogi'r creadigrwydd bob dydd sy'n digwydd mewn cartrefi a mannau cyhoeddus. O ffotograffiaeth awyr agored i weithdai cerdd yn eich llyfrgell leol, trwy grochenwaith, bomio edafedd a pherfformio ar y llwyfan, rydym yn adeiladu cymdeithas weithredol greadigol sy'n darparu ar gyfer pawb o bob oed, cefndir a gallu.

Nod Cer i Greu yw ysbrydoli pobl i roi cynnig ar rywbeth newydd ac annog pobl i rannu eu hesiamplau eu hunain o greadigrwydd bob dydd. Yn ystod haf 2021, mae **Cer i Greu yn yr Awyr Agored** yn hyrwyddo gweithgareddau creadigol awyr agored y gallwch chi gymryd rhan ynddynt, trwy:

- Lanlwytho i'n gwefan fanylion gweithgareddau creadigol awyr agored y gall pobl gymryd rhan ynddynt ar eu pennau eu hunain - p'un ai mewn mannau cyhoeddus neu yn eu gerddi eu hunain.
- Rhedeg digwyddiadau awyr agored yn haf 2021 (wrth gydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau Coronavirus cyfredol) sy'n rhoi cyfle i bobl gymryd rhan mewn rhyw fath o weithgaredd creadigol. Yna logiwch eich digwyddiadau ar ein gwefan a'u labelu fel rhan o Cer i Greu.

Bydd gwefan Cer i Greu www.cerigreu.cymru yn lle gwyh i ddod o hyd i weithgareddau a digwyddiadau creadigol y gallwch chi gymryd rhan ynddynt yn yr awyr agored yr haf hwn.

Pam cymryd rhan yn Cer i Greu yn yr Awyr Agored?

Er mwyn bod yn rhan o rywbeth mawr

Yn ôl 76% o drefnwyr gŵyl 2019, roedd bod yn rhan o ddathliad mawr yn un o'r prif gymhellion dros gymryd rhan. Mae gwybod ein bod ni'n rhan o rywbeth creadigol gyda miloedd o bobl eraill yn bwysig. Po fwyaf o grwpiau ac unigolion sy'n cymryd rhan yn yr ŵyl, po gryfaf yw'r neges. Gadewch inni wneud yr ŵyl yn un fawr!

I dyfu eich grŵp

Ydych chi'n awyddus i ddenu aelodau newydd? Dyma'r cyfle perffaith i gyflwyno eich grŵp i gynulleidfa newydd fel rhan o'r digwyddiad gyda phroffil uchel. Sicrhewch eich bod ar y map, gwisgwch eich gwên fwyaf croesawgar a helpwch bobl newydd i gymryd rhan yn eich gweithgareddau.

I godi eich proffil

Bydd y cyhoeddusrwydd ychwanegol yn codi proffil eich grŵp yn y cyfryngau. Bydd cynulleidfaoedd, gwirfoddolwyr a chefnogwyr newydd yn clywed amdanoch chi.

I ddathlu eich llwyddiannau

Rydych chi'n gweithio'n galed drwy'r flwyddyn, cefn llwyfan a blaen tŷ. Mae cymryd rhan yn yr ŵyl yn gyfle i ddod at eich gilydd unwaith y flwyddyn i ddathlu eich llwyddiannau. Yn bwysicaf oll, i rannu'r hwyl o fod yn rhan o grŵp creadigol gyda phobl newydd.

Beth allech chi ei wneud yn ystod Cer i Greu yn yr Awyr Agored?

Mae cymaint o ffyrdd i fod yn greadigol, gallai hyn gynnwys popeth o ffotograffiaeth, dawns, gwau, drama, a cherddoriaeth i bobi, garddio a chodio. Mae'r rhestr yn mynd ymlaen! Beth bynnag fo'ch ffurf ar gelf neu grefft, mae croeso i chi fod yn rhan o Cer i Greu yn yr Awyr Agored. Os nad ydych yn siŵr pa fath o ddigwyddiad y gallech ei gynnal, edrychwch a yw'r syniadau hyn yn rhoi rhywfaint o ysbrydoliaeth ichi...

Cynnal gweithdy

Mae eich grŵp wedi magu set o sgiliau – paentio mewn olew neu drefnu blodau – rhannwch nhw! Beth am gynnal gweithdy ar thema arbennig yn ystod yr ŵyl i rannu eich sgiliau.

Ymarfer Agored

Beth am wahodd pobl i ymuno ag ymarferion eich grŵp drama, côr, cerddorfa, criw dawns neu fand? Mae sesiwn ymarfer agored yn ffordd hamddenol i bobl weld beth ydych chi'n ei wneud ac efallai ymuno â chi.

Perfformiad arbennig

Manteisiwch i'r eithaf ar y cyhoeddusrwydd ychwanegol drwy gynnal sioe arbennig. Meddyliwch am ffyrdd o atynnu eich ymwelwyr newydd i rannu â nhw y llawenydd o gymryd rhan.

Cymryd eich creadigrwydd i rywle newydd

Gallwch cynnal digwyddiad mewn lleoliad hollol newydd ichi, megis llyfrgell, canolfan gymunedol neu ysgol. Mae lleoliadau cyhoeddus fel amgueddfeydd a chanolfannau siopa yn arbennig o dda am gynnal gweithdai galw heibio, arddangosfa FfrwydradGreff neu berfformiad Fflachdorf. Byddan nhw'n ffyrdd da o ddenu pobl sy'n pasio.

Mae gweithio gyda lleoliad newydd yn ffordd wych o ddianc rhag eich lle cyfarfod arferol a chyrraedd pobl newydd. Hefyd efallai y bydd y lleoliad yn gallu eich helpu chi i hysbysebu'r digwyddiad.

Gweithio gyda'n gilydd

Mae cymryd rhan yn yr ŵyl yn gyfle gwych i gwrdd â grwpiau a sefydliadau eraill. Byddai hyn yn gallu arwain at greu perthynas drwy gydol y flwyddyn ac yn ffordd o gyrraedd pobl newydd. Cysylltwch â grwpiau a sefydliadau celfyddydol eraill i weld a fyddai modd weithio gyda'ch gilydd.

Rhywbeth ar y gweill?

Os ydych chi eisoes yn cynnal digwyddiad awyr agored a gynhelir rhwng 22 Mehefin a diwedd Medi 2021, labelwch ef fel rhan o Cer i Greu yn yr Awyr Agored. Cyn belled â bod eich digwyddiad yn rhoi cyfle i bobl gymryd rhan, a'i fod naill ai am ddim neu'n adfer costau, mae croeso i chi fod yn rhan o Cer i Greu yn yr Awyr Agored!

Rhestrwch eich digwyddiad ar [wefan Cer i Greu](#) i elwa o rywfaint o gyhoeddusrwydd ychwanegol a gweld ein [hadnoddau](#) i gael cyngor ar sut i ledaenu'r gair am eich digwyddiad yn lleol a chyrchu deunydd marchnata am ddim (gan gynnwys logo Cer i Greu a thempledi poster).

Sut i sicrhau iechyd a diogelwch i'ch cyfranogwyr

Gwylwch y cyfyngiadau COVID-19 diweddaraf

Mae'n hanfodol creu amgylchedd diogel a chroesawgar i bobl sy'n cymryd rhan yn eich digwyddiad. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y rheoliadau COVID-19 diweddaraf sy'n berthnasol yn eich ardal leol er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch eich cyfranogwyr a'ch cydweithwyr fel ei gilydd. Bydd hyn yn eich helpu i deilwra fformat eich digwyddiad yn ôl yr hyn a ganiateir yn eich ardal leol. Edrychwch ar [ganllawiau diweddaraf y llywodraeth yn y DU ac Iwerddon](#).

Mynnwch drwydded ar gyfer eich digwyddiad

Yn dibynnu ar fformat eich digwyddiad, efallai y bydd gofyn i chi gaffael trwydded (e.e. os ydych chi'n gweini alcohol neu'n gwerthu tocynnau raffl). I gael mwy o wybodaeth, ewch i <https://www.gov.uk/temporary-events-notice> ar gyfer digwyddiadau yng Nghymru a Lloegr, <https://www.gov.uk/occasional-licence-northern-ireland> ar gyfer Gogledd Iwerddon, ac ymwelwch â'ch gwefan awdurdod lleol ar gyfer digwyddiadau yn Iwerddon a'r Alban.

Os yw'ch digwyddiad wedi'i anelu at blant, mae'r NSPCC wedi tynnu sylw at gamau y gallwch eu cymryd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ddiogel wrth iddynt fwynhau eu hunain yn eich digwyddiadau a'ch gweithgareddau. Ewch i'w gwefan i gael mwy o fanylion: <https://learning.nspcc.org.uk/safeguarding-child-protection/safer-activities-events>

Hyrwyddo eich digwyddiad

Y Map

Yn gyntaf rhwng eich digwyddiad ar fap yr ŵyl drwy fynd at ein gwefan a rhoi eich manylion yno. Byddwn ni hefyd yn gofyn am fanylion am eich hygyrchedd. Ar ôl inni gymeradwyo'r digwyddiad, bydd yn ymddangos ar y map a byddwch chi'n gallu rhannu'r ddolen wedyn.

Cyhoeddusrwydd a'r wasg

Meddyliwch am ble rydych chi fel arfer yn cael gwybod am ddigwyddiadau lleol. Os ydych chi'n ymddiddori yn y digwyddiad, bydd pobl eraill hefyd. Lledaenwch y gair yn lleol ac ar-lein. Mae Eventbrite yn llwyfan arlein sy'n rhad ac am ddim i gynllunio, hyrwyddo ac olrhain cofrestriadau neu archebion.

Mae rhoi posteri i fyny'n ffordd wych o adael i bobl wybod. Gofynnwch i siopau, swyddfeydd post, tafarndai a chanolfannau cymunedol am arddangos posteri. Byddwch chi'n gallu lawrlwytho [templedi posteri Cer i Greu](#) a rhoi eich manylion arnyn nhw:

- dyddiad ac amser eich digwyddiad
- lleoliad
- manylion cyswllt neu wybodaeth archebu
- unrhyw gyfyngiadau (oedran ac ati) neu ddeunyddiau sydd eu hangen
- eich gwefan neu'ch manylion cyfryngau cymdeithasol (Facebook / Twitter ac ati)

Cysylltwch yn lleol â'r papurau, y gorsafoedd radio, y gorsafoedd teledu a'r blogiau. E-bostiwch eich datganiad i'r wasg at olygydd y celfyddydau neu ddiwylliant. Ffoniwch nhw ymhen ychydig o ddiwrnodiau os nad ydyn nhw wedi cysylltu â chi.

Defnyddiwch [dempled y datganiad i'r wasg](#) i gysylltu â newyddiadurwyr a rhoi gwybod iddyn nhw eich bod chi'n rhan o'r ŵyl. Cysylltwch â ni gydag unrhyw stori wych.

Cyfryngau cymdeithasol

Am ddiweddariadau, gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn [@GetCreativeUK](#) ar [Twitter](#), [Facebook](#) ac [Instagram](#). Cofiwch ddefnyddio'r hashnod [#CeriGre](#) yn y cyfnod cyn, ac yn ystod, yr ŵyl i adeiladu cydnabyddiaeth o'r digwyddiad enfawr hwn.

Rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt

Ewch i'n [gwefan](#), neu am unrhyw gwestiynau neu wybodaeth bellach, e-bostiwch info@getcreativeuk.com

Adnoddau a thempledi

Mae gan Bywydau Creadigol set helaeth o adnoddau a thempledi am ddim i helpu grwpiau a sefydliadau i gynllunio a hyrwyddo digwyddiadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Sut i ysgrifennu datganiad i'r wasg
- Rhestr wirio digwyddiadau - anabledd a mynediad
- Asesiad risg i drefnwyr digwyddiadau - canllaw i ddechreuwr
- Yswiriant ar gyfer grwpiau celfyddydau gwirfoddol
- Sut i ysgrifennu cais cyllido llwyddiannus



Llun o'r Gŵyl Grefftau yng Ngŵyl Cer i Greu 2019 yn Maidstone, Lloegr

Cefnogir ymgyrch Cer i Greu yn yr Awyr Agored 2021 gan:



Supported using public funding by
**ARTS COUNCIL
ENGLAND**



ynghor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



arts council
of Northern Ireland

